

Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol AGIC (Dirybudd)

Ysbyty Spire Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 18 a 19 Gorffennaf 2022

Dyddiad cyhoeddi: 18 Hydref 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copiau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN digidol 978-1-80364-988-7

© Hawlfraint y Goron 2022

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac rydym yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac rydym yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu a defnyddio gwasanaethau a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom
2. Crynodeb o'r arolygiad
3. Yr hyn a ganfuom
 - Ansawdd profiad y claf
 - Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
 - Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth
4. Y camau nesaf

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Atodiad C - Cynllun gwella

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn ar sut rydym yn arolygu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd yn Ysbyty Spire Caerdydd ar 18 a 19 Gorffennaf 2022. Rhoddwyd cyfnod rhybudd o 24 awr i'r ysbyty er mwyn caniatáu i drefniadau COVID-19 diogel gael eu rhoi ar waith am gyfnod yr arolygiad.

Gall yr ysbyty ddarparu ar gyfer hyd at 66 o gleifion tair oed a throsodd ar unrhyw un adeg o dan delerau ei gofrestrriad gydag AGIC. Darperir ystod o wasanaethau sy'n cynnwys ymgynghoriadau cleifion allanol, gwasanaethau diagnostig, ynghyd ag ystod lawn o wasanaethau llawfeddygol i gleifion mewnol. Fodd bynnag, roedd yr arolygiad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar y ward sy'n darparu ar gyfer cleifion sy'n aros am driniaeth.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys tri arolygydd AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan Uwch-arolygydd Gofal Iechyd AGIC.

Sylwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i llunio ar gyfer aelodau o'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd profiad y claf

Crynodeb cyffredinol:

Dywedd pob claf a gwblhaodd holiadur fod y gofal a'r gwasanaeth a ddarperir gan yr ysbyty naill ai'n dda iawn neu'n dda. Roedd yn ymddangos bod y cleifion yn gyfforddus ac yn derbyn gofal mewn modd proffesiynol ac urddasol. Roedd prosesau da ar waith i alluogi'r cleifion i roi eu barn ar y gofal yr oeddent wedi'i dderbyn yn yr ysbyty, a gwelsom fod gwelliannau wedi'u gwneud o ganlyniad i adborth cleifion.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd bwyd y cleifion o safon uchel ac yn darparu ar gyfer unrhyw ofynion deietegol.

Gofal diogel ac effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Canfuom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Roedd gweithdrefnau priodol ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau'n ddiogel. Roedd yr ysbyty yn lân ac yn daclus. Roedd protocolau priodol ar waith i reoli risgiau, iechyd a diogelwch, a heintiau. Roedd offer dadebru brys ar gael ledled yr ysbyty mewn sawl lleoliad.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Roedd angen mân waith atgyweirio ar rai rhannau o'r ysbyty.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd cofnodion a nodiadau'r cleifion yn glir, yn hawdd eu llywio ac yn cael eu cynnal i safon uchel.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd trefniadau llywodraethu cadarn ar waith ar gyfer archwilio systemau, arferion a phrosesau i helpu'r ysbyty i fonitro ansawdd y gwasanaeth y mae'n ei ddarparu i'r cleifion. Defnyddir offerynnau staffio mwy diogel i helpu i sicrhau bod niferoedd digonol o staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol ar gael i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Roedd cydymffurfedd staff â hyfforddiant gorfodol yn uchel.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Rhaid parhau i ymdrechu i glirio'r ôl-groniad o apwyntiadau radioleg yn yr ysbyty
- Dylai'r ysbyty fyfyrion ar yr adborth a ddarperir yn yr adroddiad hwn er mwyn cefnogi unrhyw ddysgu neu gamau gweithredu pellach.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Mynychwyd briff diogelwch dyddiol gennym yn ystod yr arolygiad, a chanfuom ei fod yn ffordd effeithiol o gyfathrebu ag uwch aelodau o staff yn yr ysbyty ynghylch materion allweddol a risgiau hysbys i uwch.

3. Yr hyn a ganfuom

Ansawdd profiad y claf

Adborth cleifion

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddefnyddio holiaduron papur ac ar-lein i gasglu barn ac adborth gan gleifion. Cafodd 12 holiadur eu cwblhau. Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur fod y gofal a'r gwasanaeth a ddarperir gan yr ysbyty naill ai'n dda iawn neu'n dda. Mae rhai o ganlyniadau'r holiadur yn ymddangos yn adrannau'r adroddiad hwn. Roedd sylwadau cleifion yn gadarnhaol ac yn cynnwys y canlynol:

“Mae'r gofal wedi bod yn ardderchog o'r dechrau i'r diwedd.”

“Roedd yn rhagorol - roedd fy anghenion yn cael eu rhagdybio bob amser”

“Mae'r gofal rydw i wedi'i dderbyn ... wedi bod yn ardderchog. Ni allwn fod wedi dymuno gwell gofal”

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd taflenni i gleifion ar gael ar y ward ar sut i osgoi clotiau gwaed yn dilyn llawdriniaeth. Dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael gwybodaeth fanwl ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty. Cadarnhaodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiaduron eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i atal haint a hybu'r broses wella, ac arweiniad ar sut i wirio eu hunain am arwyddion a symptomau haint, a beth i'w wneud a phwy i gysylltu ag ef rhag ofn bod haint yn datblygu neu fod angen gofal brys.

Roedd posteri “Ei Ddal ef. Ei daflu. Ei Ddifa” wedi'u harddangos mewn lifftiau ac yn ardal y grisiau i atgoffa cleifion am yr arferion gorau wrth atal a rheoli heintiau.

Urddas a pharch

Gwelsom ryngweithio cyfeillgar a pharchus yn digwydd rhwng y staff a'r cleifion. Gwnaeth y staff bob ymdrech hefyd i ddiogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion yn ystod yr adegau roeddem ar y ward. Roedd yn ymddangos bod y cleifion y gwnaethom gyfarfod â nhw yn cael gofal da. Gwelsom fod ymgynghoriadau â chleifion yn cael eu cynnal mewn ardal breifat, y tu ôl i ddrws caeedig, lle nad oedd neb yn gallu eu clywed. Dywedodd cleifion ar y brif ward wrthym eu bod wedi cael dewis a oeddent am i ddrws eu hystafell gwely fod ar agor neu ar gau.

Roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiaduron yn cytuno â'n harsylwadau bod y staff yn eu trin ag urddas a pharch a bod camau'n cael eu cymryd i amddiffyn eu preifatrwydd. Cytunodd yr holl gleifion hefyd fod y staff yn garedig ac yn sensitif pan fyddant yn darparu gofal a bod staff yn eu helpu ag anghenion toiledau mewn ffordd sensitif.

Roedd ystafelloedd gwely'r cleifion yn lân ac yn daclus ac roedd ganddynt gyfleusterau en-suite. Roedd yn gadarnhaol gweld bod mwy o ystafelloedd gwely cleifion wedi'u hadnewyddu ers ein harolygiad safle blaenorol yn 2019. Bydd sicrhau bod gweddill yr ystafelloedd gwely hŷn yn cael eu hadnewyddu yn sicrhau bod bob claf sy'n mynychu'r ysbyty i gael triniaeth yn cael profiad mwy cyson i.

Gwybodaeth i gleifion a chydysniad

Roedd stondin yn dangos pa daflenni gwybodaeth oedd ar gael i gleifion wedi'i lleoli yn y man aros ger mynedfa'r ysbyty. Roedd cleifion yn gallu gofyn am y taflenni gan staff y dderbynfa er mwyn eu darllen a'u cymryd i ffwrdd. Gwelsom fod y taflenni'n benodol i driniaeth ac yn rhoi trosolwg i gleifion o'r gweithdrefnau a ddarperir gan yr ysbyty.

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiaduron wrthym eu bod yn cael digon o wybodaeth i ddeall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael iddynt, ynghyd â'r risgiau a'r manteision a oedd yn gysylltiedig â phob un. Cytunodd yr holl gleifion hefyd y gwnaed y gost yn glir iddynt cyn derbyn triniaeth a'u bod wedi llofnodi ffurflen gydsynio.

Cyfathrebu'n effeithiol

Gwelsom y staff yn ystyried anghenion unigol y claf yn ystod trafodaethau am ei ofal a'i driniaeth. Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â hwy yn ystod yr arolygiad wrthym eu bod wedi cael y cyfle i ofyn cwestiynau a bod y staff yn cymryd amser i wrando arnynt ac egluro'u gofal iddynt. Roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiaduron hefyd yn cytuno bod y staff yn esbonio'r hyn yr oeddent yn ei wneud drwy gydol y driniaeth.

Gwelsom fod gan bob ystafell wely 'syniwr' i gleifion ei bwysu am gymorth. Cytunodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiaduron fod staff wedi dod atynt pan oeddent wedi defnyddio eu seiniwr. Darparodd un claf y sylw canlynol ac efallai y byddai'r gwasanaeth yn dymuno myfyrio arno:

“Byddai'n braf pe bai'r nyrs yn cyflwyno'i hun wrth gael ei derbyn i'r ward - arhosais i am fwy nag awr a bu'n rhaid imi wasgu'r swynyn.”

Cynllunio a darparu gofal

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu cofnodion a nodiadau cleifion ar gyfer pum claf a oedd naill ai yn yr ysbyty ar hyn o bryd, neu a oedd wedi'u rhyddhau yn ddiweddar. Gwelsom eu bod yn hawdd eu llywio, yn fanwl ac yn dangos bod lefel uchel o ofal yn cael ei ddarparu i gleifion. Mae hyn oherwydd y canlynol:

- Roedd dogfennaeth nyrsio, fel siartiau Sgorio Rhybudd Cynnar Cenedlaethol, presgripsiynau a siartiau cydbwysedd hylif yn gywir, wedi'u cyfrifo'n gywir ac wedi'u cwblhau'n llawn
- Roedd asesiadau priodol yn cael eu cynnal ar gleifion ar adeg eu derbyn er mwyn helpu i nodi'r rheini a oedd mewn perygl o gwmpo ac o ddioddef o niwed drwy bwysau a niwed i feinwe
- Roedd sgorau poen cleifion yn cael eu diweddarau a'u monitro a'u rheoli'n briodol
- Roedd cynlluniau gofal yn seiliedig ar anghenion unigol cleifion
- Roedd tystiolaeth glir o drosglwyddo gofal a chynlluniau rhyddhau.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd gan yr ysbyty bolisiâu ar waith i helpu i sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth y cleifion yn cael eu parchu. Roedd yr ysbyty'n darparu amgylchedd hygyrch i bobl a allai fod ag anawsterau symudedd. Roedd dolen glyw ar gael ar ddesg y dderbynfa.

Dywedodd y staff wrthym y gofynnir i gleifion a ydynt yn gallu siarad Cymraeg a gwelsom un aelod o staff yn gwisgo bathodyn yn dangos ei fod yn siarad Cymraeg. Roedd gwybodaeth ysgrifenedig ar gael mewn gwahanol ieithoedd ar gais ac roedd gwasanaethau cyfieithu ar gael i gleifion a oedd yn dymuno cyfathrebu mewn ieithoedd heblaw Cymraeg neu Saesneg.

Teimlai pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiaduron, ond un, y gallent gael mynediad at y gofal iechyd cywir ar yr amser cywir (ni waeth beth fo'u sefyllfa o ran oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, a rhyw a chyfeiriadedd rhywiol).

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod systemau cadarn ar waith i archwilio ac adolygu'r gwasanaeth a ddarperir yn yr ysbyty.

Anogir cleifion i gwblhau arolygon profiad cleifion drwy sganio codau QR a arddangosir ar bosteri ym mhob rhan o'r ysbyty. Anfonir arolygon hefyd at gleifion er mwyn iddynt eu cwblhau ar ôl cael eu rhyddhau. Gwelsom fod canlyniadau profiad cleifion diweddar yn cael eu harddangos yn y man aros er mwyn hysbysu cleifion. Roedd posteri 'Dywedoch chi, fe wnaethom ni' yn cael eu harddangos i roi gwybod am y newidiadau a wnaed o ganlyniad i adborth cleifion. Cyn rhyddhau, mae'r arweinydd profiad claf yn yr ysbyty yn cynnal trafodaeth â phob claf er mwyn trafod ei driniaeth a'i brofiadau yn ystod ei amser yno.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Gwelsom fod gan y gwasanaeth brosesau a gweithdrefnau priodol ar waith i amddiffyn iechyd a diogelwch cleifion, y staff a'r rheini sy'n ymweld â'r ysbyty. Roedd uwch reolwyr yn yr ysbyty yn mynychu briffiau diogelwch dyddiol i drafod risgiau'r safle cyfan a materion a oedd yn dod i'r amlwg.

Roedd rhestrau gwirio monitro iechyd a diogelwch cyffredinol chwarterol yn cael eu cynnal ar gyfer pob adran yn yr ysbyty. Roedd y rhestrau gwirio yn gynhwysfawr ac yn helpu i asesu a oedd trefniadau ar waith ar gyfer rhagofalon tân, diogelwch trydanol ac offer, a storio deunyddiau peryglus yn ddiogel.

Roedd wardeniaid tân dynodedig wedi'u nodi yn yr ysbyty ac roedd yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol ar ddiogelwch tân. Gwelsom fod cynhyrchion glanhau yn cael eu storio'n ddiogel drwy gydol yr arolygiad.

Nid oedd unrhyw beryglon amlwg yn y manau i gleifion yr aethom iddynt, ac roedd y dodrefn a'r ffitiadau wedi'u cynnal a'u cadw'n dda ar y cyfan. Fodd bynnag, gwelsom fod drôr a chwprdd yn yr ystafell olchi wedi'u difrodi a bod dau flaen drôr ar goll yn yr ystafell driniaeth. Awgrymodd dau aelod o staff y gwelliant canlynol yn yr holiaduron:

“Adnewyddu'r cyfleusterau yn Ward 1 - sydd heibio'u gorau - ac adnewyddu'r adrannau i gleifion allanol”

“Adnewyddu Ward 1.”

Dywedwyd wrthym fod cynlluniau eisoes ar waith i wneud rhywfaint o waith adnewyddu yn yr ysbyty yn ystod y misoedd nesaf, ac roeddem yn falch o nodi hynny.

Gwelsom fod offer dadebru brys ar gael ym mhob rhan o'r ysbyty mewn lleoliadau lluosog. Roedd yr holl eitemau wedi'u storio'n briodol ac yn hygyrch i'w defnyddio mewn argyfwng. Roedd gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal ar y cyffuriau a'r offer brys er mwyn sicrhau eu bod parhâi i fod o fewn eu dyddiad ac yn ddiogel i'w ddefnyddio. Roedd yr holl staff y gwnaethom siarad â hwy yn ystod yr arolygiad yn ymwybodol o leoliadau'r offer dadebru brys ac o'u rôl a'u cyfrifoldeb yn ystod argyfwng.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Canfuom fod trefniadau atal a rheoli heintiau addas ar waith yn yr ysbyty i helpu i gadw'r staff a'r cleifion yn ddiogel. Roedd polisi rheoli heintiau cyfredol ar gael ar-lein i'r holl staff. Roedd archwiliadau rheolaidd wedi'u cwblhau i wirio glanweithdra'r amgylchedd a monitro cydymffurfedd â gweithdrefnau rheoli heintiau. Gwelsom fod canlyniadau archwiliadau hylendid dwylo, a oedd wedi'u cynnal yn ddiweddar, yn cael eu harddangos ger gorsaf y nyrs.

Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael. Gwelsom hefyd fod gorsafoedd diheintio dwylo wedi eu lleoli mewn mannau strategol o amgylch yr ysbyty i'r staff ac ymwelwyr eu defnyddio, er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio. Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff, a gwelsom staff yn gwisgo ac yn diosg cyfarpar diogelu personol yn briodol wrth fynd i mewn ac allan o ystafelloedd cleifion.

Dywedwyd wrthym fod cleifion yn gwneud profion llif unffordd (profion LFT) ar y diwrnod derbyn, a bod staff yn cynnal profion LFT ddwywaith yr wythnos, er mwyn helpu i atal unrhyw achosion o COVID-19. Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiaduron eu bod yn credu bod mesurau rheoli heintiau COVID-19 yn cael eu dilyn yn yr ysbyty pan fo'n briodol.

Gwelsom fod labeli 'Rwy'n lân' yn cael eu gosod ar offer a rennir a dyfeisiau meddygol y gellir eu haildefnyddio i hysbysu'r staff eu bod wedi'u diheintio a'u bod yn ddiogel i'w haildefnyddio.

Cytunodd yr holl staff a gwblhaodd holiaduron fod trefniadau atal a rheol heintiau priodol ar waith yn yr ysbyty.

Maeth

Roedd cofnodion a nodiadau'r cleifion a adolygwyd gennym yn dangos tystiolaeth dda bod anghenion maeth cleifion yn cael eu diwallu. Roedd asesiadau risg maethol yn cael eu cwblhau ar gyfer cleifion o fewn 24 awr i'w derbyn. Roedd siartiau monitro'n cael eu cwblhau yn ôl yr angen er mwyn sicrhau bod cymeriant maethol a hylif cleifion yn briodol drwy gydol eu hamser yn yr ysbyty.

Gwelsom fod hylifau ar gael i gleifion a bod jygiau dŵr ar gael yn rhwydd. Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â hwy yn ystod yr arolygiad wrthym fod y staff wedi'u hannog i alw am ragor o ddŵr a diodydd poeth pan oedd eu hangen arnynt.

Roedd systemau effeithiol ar waith i ddarparu ar gyfer anghenion deietegol cleifion unigol, a chyfathrebu da rhwng y staff nyrsio a'r staff arlwy. Mae gwybodaeth am unrhyw alergeddau sydd gan gleifion yn cael ei rhannu yn ystod y briffiau diogelwch dyddiol er mwyn sicrhau diogelwch wrth baratoi bwyd. Gwelsom fod

cleifion yn gallu dewis prydau o fwydlen amrywiol. Mae'r holl brydau'n cael eu paratoi'n ffres ar y safle ac roedd y prydau a welsom yn edrych fel petaent wedi'u cyflwyno'n dda ac yn flasus.

Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw fod ansawdd y bwyd yn dda iawn. Roedd y cleifion a gwblhaodd holiaduron yn cytuno eu bod yn cael amser i fwyta ar eu cyflymder eu hunain a bod staff yn eu helpu i fwyta a/neu yfed os oes angen cymorth arnynt.

Rheoli meddyginiaethau

Canfuom fod gweithdrefnau cadarn ar waith i gefnogi prosesau rhagnodi, storio a rhoi meddyginiaethau yn ddiogel. Roedd polisi rheoli meddyginiaethau cyfredol ar waith ac ar gael ar-lein i'r staff. Roedd copi papur hefyd yn cael ei gadw yn swyddfa'r staff.

Roedd yr ystafell driniaeth i'w gweld yn lân ac yn daclus, a gwelsom dystiolaeth fod tymheredd yr ystafell a'r oergell feddyginiaeth yn cael ei gofnodi'n ddyddiol i sicrhau nad yw'r lefelau'n uwch na'r paramedrau derbyniol. Gwelsom fod yr holl feddyginiaeth wedi'i chloi mewn cypyrddau, oergelloedd neu droliau yn ôl yr angen. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd y ddau droli meddyginiaeth yn sownd wrth y wal, sef rhywbeth a oedd yn ofynnol ym mholisi rheoli meddyginiaethau'r ysbyty. Cawsom dystiolaeth yn uniongyrchol ar ôl i'r arolygiad ddod i ben i ddangos bod y ddau droli bellach yn sownd wrth y wal.

Roedd yr ysbyty'n defnyddio Siartiau Cyffuriau Cymru Gyfan, yr oeddent yn cael eu cwblhau yn drylwyr ac yn gyson. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod pob claf yn gwisgo bandiau adnabod er mwyn helpu i sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei rhoi yn ddiogel. Roedd fferylllydd ar gael ar y safle chwe diwrnod yr wythnos. Roedd y cofnodion a adolygwyd gennym yn dangos bod cyffuriau rheoledig yn cael eu cofnodi'n gyson, bod pobl yn llofnodi'n gywir wrth eu tynnu o'r stoc, a bod gwiriadau stoc yn cael eu cynnal yn erbyn y llyfr cofnodi bob nos. Roedd system ddiogel ar waith i'w gwneud yn bosibl i gleifion hunan-feddyginiaethu pan fo'n briodol.

Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed

Mae gan yr ysbyty brosesau ar waith i ddiogelu'n briodol blant ac oedolion a all fod yn agored i niwed. Roedd siartiau llif ar gael a oedd yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer adrodd ar bryderon diogelu ac ymateb iddynt. Penodir person arweiniol dynodedig ar gyfer unrhyw faterion diogelu yn ystod y briffiau diogelwch dyddiol, a rhoir gwybod i'r holl staff pwy yw'r sawl hwnnw. Mae arweinwyr diogelu yn cael hyfforddiant diogelu ar Lefel 4 ac mae staff nyrsio a chlinigol yn dilyn hyfforddiant diogelu ar Lefel 3. Mae pob aelod arall o staff yn cwblhau hyfforddiant diogelu ar Lefel 2.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â hwy yn ystod yr arolygiad yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu. Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiaduron wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel ar y ward.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Roedd gan yr ysbyty ystod o ddyfeisiau, offer a systemau meddygol a oedd yn ymddangos eu bod yn diwallu anghenion gofal a thriniaeth y cleifion. Dywedwyd wrthym fod y gwaith o uwchraddio a gwella'r system cloch alwadau sydd ar waith yn yr ysbyty wedi dechrau. Gwelsom fod risgiau i gleifion yn yr ystafelloedd gwely hynny sy'n dal i ddefnyddio'r system clychau galw hŷn wedi'u nodi ar gofrestr risg yr ysbyty.

Canfuom fod prosesau addas ar waith ar gyfer cyflawni gwaith cynnal a chadw rheolaidd ac ar gyfer adrodd am unrhyw faterion. Roedd staff rheoli cyfleusterau dynodedig wedi'u lleoli yn yr ysbyty i gefnogi hyn.

Gofal diogel ac sy'n effeithiol yn glinigol

Gwelsom fod systemau ar waith i helpu i sicrhau bod y gofal a ddarperir i gleifion yn ddiogel ac yn effeithiol. Roedd y ddarpariaeth gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn amlwg yn seiliedig ar anghenion penodol ac amrywiol y cleifion.

Roedd byrddau gwybodaeth i gleifion yn y theatr ac ar y ward a oedd yn nodi manylion y cleifion a oedd wedi'u derbyn, eu statws ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall.

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiaduron wrthym eu bod wedi llenwi ffurflen hanes meddygol, neu fod rhywun wedi gwirio eu hanes meddygol, ac wedi llofnodi ffurflen gydsynio cyn cael triniaeth.

Canfuom fod poen yn cael ei rheoli mewn modd priodol a bod asedau ffurfiol yn cael eu cynnal, eu cofnodi a'u hadolygu'n rheolaidd. Gwelsom ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion gyda'r staff yn rhoi sylw i anghenion cleifion mewn modd synhwyrol a phroffesiynol. Roedd tystiolaeth o weithio amlddisgyblaethol rhwng y staff nyrsio a'r staff meddygol yn yr ysbyty. Gwelsom ryngweithiadau proffesiynol bob amser.

Roedd gwybodaeth am adnabod arwyddion sepsis yn cael ei harddangos ym mhob rhan o'r ysbyty. Roedd bag argyfwng ar gyfer sepsis yn benodol yn rhan o'r offer brys, ac roedd yr holl staff y gwnaethom siarad â hwy yn ystod yr arolygiad yn ymwybodol o'i leoliad.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom nodi y bu nifer o ddigwyddiadau yn yr ysbyty pan yr oedd yn ymddangos y cafwyd problemau wrth nodi a rheoli cyfnodau o sepsis yn gywir. Fe'n sicrhawyd gan staff fod hyn eisoes wedi'i nodi fel mater yr oedd angen

ei wella a bod cynllun gweithredu ar waith i ddarparu hyfforddiant ac addysg bellach i staff ynghylch y gweithdrefnau y disgwylir iddynt eu dilyn ar hyd y llwybr sepsis.

Gwelsom dystiolaeth o gynlluniau rhyddhau priodol a oedd yn cynnwys y ffaith bod pecynnau gofal ar waith ar ôl rhyddhau. Roedd y cofnodion a adolygwyd gennym hefyd yn dangos bod penderfyniad wedi'i gofnodi ynghylch p'un a oedd cleifion yn feddygol ffit i gael eu rhyddhau.

Mae hysbysiadau diogelwch cleifion yn cael eu cyfleu i staff drwy drosglwyddiadau gofal dyddiol a chyfarfodydd 'adborth dydd Gwener' wythnosol, yn ogystal â thrwy negeseuon e-bost. Trafodir diweddariadau clinigol, digwyddiadau a'r hyn a ddysgwyd yn ystod cyfarfod llywodraethu clinigol misol a fynychir gan bob pennaeth adran. Roedd cofnodion y cyfarfodydd hyn yn ymddangos yn gadarn ac roedd unrhyw gamau gweithredu'n cael eu monitro a'u diweddarau'n briodol.

Roedd mwyafrif yr aelodau staff a gwblhaodd holiaduron yn cytuno bod uwch reolwyr yn ymroddedig i ofal cleifion.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Dywedwyd wrthym fod y Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Clinigol wedi cynnal Adolygiad Diogelwch ac Ansawdd Cleifion cynhwysfawr wedi'i gwblhau ym mis Rhagfyr 2021 er mwyn helpu i sicrhau bod pob adran yn yr ysbyty yn bodloni'r safonau gofynnol. Gwelsom fod gwaith yn mynd rhagddo i roi'r gwelliannau a nodwyd ar waith, a gwnaethom nodi bod 94 y cant o'r camau gweithredu wedi'u cwblhau erbyn mis Gorffennaf 2022.

Yn ystod ein trafodaeth ag uwch reolwyr, roedd yn amlwg bod cysylltiadau da wedi'u sefydlu ag ysbytai Spire eraill, a bod hynny'n ei gwneud yn bosibl rhannu dysgu ac arfer gorau.

Rheoli Cofnodion

Roedd cofnodion a nodiadau cleifion ar bapur a gwelsom eu bod yn cael eu storio'n ddiogel mewn troli dan glo trwy gydol yr arolygiad.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu cofnodion a nodiadau cleifion ar gyfer cleifion a oedd yn yr ysbyty ar adeg yr arolygiad a'r rheini a oedd wedi'u rhyddhau yn ddiweddar. Gwelsom eu bod yn cael eu cynnal a'u cadw i safon uchel a'u bod yn hawdd eu llywio. Roedd y ddogfennaeth yn gynhwysfawr, yn fanwl, yn drefnus ac wedi'i hysgrifennu'n glir, gan olygu bod gan staff fynediad da at nodiadau darllenadwy er mwyn helpu i sicrhau diogelwch y gofal a ddarperir i gleifion.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Canfuom fod systemau priodol ar waith i helpu'r ysbyty i fonitro ansawdd y gwasanaeth y mae'n ei ddarparu i gleifion. Cynhelir archwiliadau yn ôl amserlen sefydlog reolaidd a chânt eu llywodraethu drwy'r system electronig Rheoli ac Orlhain Archwilio. Mae penaethiaid pob adran yn gyfrifol am roi unrhyw gamau sy'n deillio o archwiliadau ar waith, a chaiff y rhain eu cyfleu i uwch reolwyr yn ystod cyfarfodydd archwilio ac effeithiolrwydd clinigol misol.

Mynychwyd briff diogelwch dyddiol gennym yn ystod yr arolygiad, a chanfuom ei fod yn ffordd effeithiol o gyfathrebu ag uwch aelodau o staff yn yr ysbyty ynghylch materion allweddol a risgiau hysbys.

Dywedodd mwyafrif yr aelodau o staff a gwblhaodd holiaduron wrthym fod uwch reolwyr yn weladwy a'u bod yn gwybod pwy ydynt. Dywedwyd wrthym fod uwch reolwyr yn defnyddio dulliau amrywiol i gyfathrebu â staff, gan gynnwys fforymau staff misol, cyfarfodydd adborth wythnosol ac opsiwn i roi adborth yn uniongyrchol i reolwr yr ysbyty yn ddiennw. Fodd bynnag, dywedodd tua thraean o'r aelodau o staff a gwblhaodd holiaduron nad yw'r cyfathrebu rhwng yr uwch reolwyr a'r staff yn effeithiol, ac nad yw uwch reolwyr yn ceisio cynnwys staff mewn penderfyniadau pwysig. Awgrymodd dau aelod o staff y gwelliannau canlynol yn yr holiaduron:

“Gwrandewch ar staff y rheng flaen, ystyriwch y sylwadau a wnaed neu'r syniadau.”

“Rwy'n mwynhau gweithio yma; mae pawb yn ddymunol, yn weithgar ac yn gefnogol, ond nid yw'n ymddangos bod llawer o ysgogiad i newid y materion bach amrywiol sy'n gwneud rolau bob dydd, y mae llawer o bobl yn eu gwneud, yn anodd iddynt.”

Dylai uwch reolwyr yr ysbyty ystyried a myfyrio ar yr agwedd hon ar adborth staff.

Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau

Canfuom fod systemau a phrosesau cadarn ar waith i reoli cwynion, pryderon a digwyddiadau. Roedd gwybodaeth am sut y gallai cleifion wneud cwyn wedi'i harddangos ym mhob rhan o'r ysbyty, wedi'i chynnwys yn y datganiad o ddiben ac ar gael ar wefan yr ysbyty. Roedd y polisi cwynion yn cynnwys cyfeiriad at AGIC a rhestr o sefydliadau eraill y gallai cleifion gysylltu â nhw hefyd ynghylch unrhyw faterion neu bryderon a allai fod ganddynt. Cytunodd pob un o'r cleifion a

gwblhaodd holiaduron eu bod wedi cael gwybodaeth am sut y byddai'r ysbyty yn datrys unrhyw bryderon neu gwynion ar ôl eu triniaeth.

Dywedwyd wrthym fod materion wedi codi yn yr adran radioleg yn ddiweddar ynghylch y ffaith bod aelodau o'r cyhoedd yn cael anawsterau wrth gysylltu â'r tîm gweinyddol, ac ôl-groniad o apwyntiadau. Mae'r ysbyty wedi cael nifer o gwynion o ganlyniad. Dywedodd rheolwr yr ysbyty wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r problemau hyn drwy gyflogi mwy o staff i helpu i glirio'r ôl-groniad a bod pobl ar gael i siarad â'r cyhoedd.

Roedd pob aelod o staff a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod yr ysbyty yn eu hannog i adrodd am ddigwyddiadau, gwallau a damweiniau fu bron â digwydd. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â hwy yn ystod yr arolygiad, a phob aelod o staff a gwblhaodd holiaduron, eu bod yn ymwybodol o'r broses ar gyfer adrodd am ddigwyddiadau cleifion. Defnyddir system DATIX electronig i gofnodi pob digwyddiad. Gwelsom fod y ffurflenni digwyddiad yn fanwl, yn strwythuredig ac yn dangos bod ymchwiliad wedi cael ei gynnal cyn ei gau. Gwelsom fod themâu digwyddiadau yn cael eu trafod yn ystod cyfarfodydd llywodraethu clinigol misol. Fodd bynnag, awgrymodd un aelod o staff y gwelliant canlynol yn yr holiaduron:

“Cymerwch sylw o’r hyn sy’n achosi’r gwallau/materion ailadroddus ac ewch i’r afael ag ef.”

Dywedwyd wrthym fod unrhyw wersi a ddysgwyd o'r ymchwiliad yn cael eu rhannu â'r staff er mwyn atal yr un peth rhag digwydd eto ac i hyrwyddo arferion diogel ac effeithiol. Cadarnhaodd mwyafrif yr aelodau o staff a gwblhaodd holiaduron eu bod yn cael adborth yn dilyn digwyddiadau er mwyn helpu i sicrhau nad ydynt yn digwydd eto. Dywedodd un aelod o'r staff wrthym:

“Mae llywodraethu clinigol yn ardderchog ac yn gefnogol iawn, yn hapus i helpu bob amser. Adborth da am wersi i’w dysgu o ganlyniad i ddigwyddiadau. Mae pawb yn gyfeillgar chymwynasgar.”

Roedd y staff yn gallu cysylltu â 'gwarcheidwad rhyddid i godi llais' er mwyn codi'n gyfrinachol unrhyw faterion neu bryderon a allai fod ganddynt ynghylch yr ysbyty. Dywedodd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd holiaduron wrthym y byddent yn teimlo'n ddiogel yn codi pryderon am arferion clinigol anniogel ac y byddent yn hyderus y byddai'r ysbyty'n mynd i'r afael â'u pryderon.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygu sefydliadol

Dywedwyd wrthym fod pob pennaeth adran yn defnyddio offeryn staffio mwy diogel i sicrhau bod pob shift yn cynnwys niferoedd digonol o staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol. Cynhelir cyfarfod

adolygu staff diogel bob dydd ar ôl y briff diogelwch cleifion er mwyn trafod derbyniadau cleifion, eu triniaethau a lefel yr angen i benderfynu a ddylid cynyddu neu leihau'r lefelau staffio. Gwnaethom edrych ar sampl o rotâu staff ar gyfer y misoedd blaenorol a chanfod, ar y cyfan, bod nifer y staff nyrsio ar bob shift yn briodol ac yn unol â lefelau staffio diogel yr ysbyty.

Roedd tua thri chwarter o'r aelodau o staff a gwblhaodd holiaduron yn cytuno bod digon o staff yn yr ysbyty i'w galluogi i wneud eu gwaith yn iawn. Gwnaeth un aelod o staff y sylw a ganlyn:

“... mae mwy o gleifion [yn] cael eu bwcio i mewn ar gyfer llawdriniaeth hwyr ... ar ôl llawdriniaeth maen nhw'n dod yn ôl ar y shift nos, - dyna pryd mae gennym ni lai o staff ar ddyletswydd. Dylai fod amser terfyn cynharach ar gyfer llawdriniaeth.”

Canfuom fod systemau ar waith i fonitro cydymffurfedd â hyfforddiant gorfodol ac arfarniadau ar gyfer y staff. Gwelsom fod cyfraddau cwblhau hyfforddiant yn gyffredinol uchel. Teimlai mwyafrif y staff a gwblhaodd holiaduron eu bod wedi derbyn hyfforddiant priodol i gyflawni eu rôl.

Dywedwyd wrthym fod y staff yn cael sesiynau goruchwyllo clinigol rheolaidd gyda'r uwch aelodau o staff i'w helpu i fyfyrion a nodi meysydd i'w gwella. Mae staff hefyd yn derbyn arfarniadau 'Galluogi Rhagoriaeth' blynyddol. Dywedodd mwyafrif y staff a gwblhaodd holiaduron wrthym eu bod wedi cael eu harfarniad o fewn y 12 mis diwethaf.

Dywedodd bron pob aelod o staff a gwblhaodd holiaduron y byddent yn hapus â safon y gofal a ddarperir gan yr ysbyty iddynt hwy eu hunain, eu ffrindiau neu eu teulu. Byddai tua thri chwarter yr aelodau o staff a gwblhaodd holiaduron yn argymhell yr ysbyty fel lle i weithio. Roedd y sylwadau a gawsom gan aelodau o staff am weithio yn yr ysbyty yn cynnwys:

“Mae Spire Caerdydd yn lle gwych i weithio gyda thîm cefnogol iawn.”

“Rwy'n caru fy swydd yma yn Spire”

“... nid oes unrhyw gymhelliant i symud ymlaen mewn rôl, dim cynyddiadau mewn cyflog am ba hyd yr ydych wedi gweithio yma nac am ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol ...”

“Yn gyffredinol mae Spire yn lle braf i weithio ... [ond] mae'r diwylliant wedi newid. Mae bellach yn fusnes sy'n cael ei yrru gan arian ... mae'r berchnogaeth wedi newid.”

Arferion recriwtio a chyflogaeth y gweithlu

Roedd polisi recriwtio ar waith a oedd yn amlinellu'r trefniadau i'w dilyn er mwyn sicrhau bod y broses recriwtio yn agored a theg. Cyn cyflogaeth, rhaid i ddarpar aelodau o staff ddarparu dau eirda a thystiolaeth o gymwysterau proffesiynol. Mae gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd hefyd yn cael eu cynnal i sicrhau bod y staff yn addas i weithio yn yr ysbyty.

Mae staff parhaol sydd newydd eu penodi yn cael cyfnod sefydlu i ddysgu am yr ysbyty, darllen polisiau'r cwmni, a chwblhau hyfforddiant gorfodol. Mae pob dechreuwr newydd yn cwblhau rhestr wirio sefydlu er mwyn dangos ei ddealltwriaeth o'r gweithdrefnau.

Teimlai mwyafrif y staff a gwblhaodd holiaduron fod eu patrwm gwaith presennol yn caniatáu cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith a dywedon nhw wrthym eu bod yn ymwybodol o'r cymorth iechyd galwedigaethol sydd ar gael iddynt yn yr ysbyty.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon dybryd yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion lle rydym am i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym am i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn eglur sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pryd yr aethpwyd i'r afael â'r rhain

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Ysbyty Spire Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 18-19 Gorffennaf 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion yn ystod yr arolygiad hwn.				

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ysbyty Spire Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 18-19 Gorffennaf 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon Rheoliad	/ Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r gwasanaeth roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r cynnydd a wnaed o ran gwaith gwella a drefnwyd yn yr ysbyty, yn enwedig mewn perthynas â'r dodrefn sydd wedi'u difrodi a'r dodrefn coll yn yr olchfa a'r ystafelloedd triniaeth, ac ar osod y system clychau galw newydd.	Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Mae'r gwaith diweddarau a drefnwyd ar gyfer ein golchfeydd a'n hystafelloedd triniaeth ar ward 2 bellach wedi'i gwblhau yn unol â'r amserlen.	Y Cyfarwyddwr Gweithrediadau	Cwblhawyd
		Mae'r gwaith a gynlluniwyd i osod system glychau newydd ar gyfer galw nyrsys wedi'i gwblhau ar draws yr ysbyty ac mae bellach yn gwbl weithredol.	Y Cyfarwyddwr Gweithrediadau	Cwblhawyd
Rhaid i'r gwasanaeth roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed o ran clirio'r	Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau	Rydym yn cwblhau adolygiadau rheolaidd o'n rhestrau aros er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu blaenoriaethu ar sail angen clinigol.	Pennaeth yr adran Ddelweddu	Yn parhau

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon Rheoliad	/ Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
ôl-groniad o apwyntiadau radioleg yn yr ysbyty.		Mae pob dull delweddu yn cael ei archebu hyd at gapasiti o 90% er mwyn darparu ar gyfer apwyntiadau brys yn ôl yr angen	Pennaeth yr adran Ddelweddu	Yn parhau
		Mae capasiti MRI ychwanegol wedi'i gomisiynu er mwyn cynyddu'r capasiti i 60 claf y mis ar gyfer gweddill 2022, a hynny drwy wasanaeth symudol. Bydd hyn yn cynyddu i 120 y mis yn 2023.	Cyfarwyddwr yr Ysbyty	Cwblhawyd
		Rydym wedi penodi Rheolwr Gweinyddu Delweddu newydd a fydd yn cynnal adolygiad llawn o'n prosesau archebu.	Y Cyfarwyddwr Gweithrediadau	Yn dechrau ym mis Hydref 2022
		Rydym wedi sicrhau staff gweinyddol asiantaeth ychwanegol i bontio'r bwlch nes bod staff parhaol ychwanegol yn cael eu recriwtio.	Y Cyfarwyddwr Gweithrediadau	Cwblhawyd
		Ar hyn o bryd mae'r rhestr "yn yr arfaeth" wedi gostwng o dros 450 i lai na 300.	Rheolwr Adran Delweddu	Yn parhau
Dylai'r gwasanaeth adolygu ymatebion y cleifion a'r staff i'r holiaduron, a nodwyd yn yr adroddiad hwn, a rhoi'r	Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd	Rydym wedi gwella ein hamser ymateb i glychau galw o ganlyniad i weithredu ein system clychau galw newydd. Bydd hyn yn cael ei fonitro drwy gynnal archwiliadau.	Rheolwr y Ward	Yn parhau

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon Rheoliad	/ Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau i fynd i'r afael â'r materion a godwyd.</p>		<p>Mae'r holl aelodau o staff yn gwisgo bathodynau enw sy'n dangos eu henw a'u rôl, ac yn cyflwyno'u hunain i gleifion wrth iddynt gyrraedd.</p>		
		<p>Mae ein sgorau adborth gan gleifion yn dangos bod lefelau uchel iawn o foddhad. Rydym yn yr ail safle ar hyn o bryd, allan o'r 39 ysbyty yng ngrŵp Spire, o ran darparu gofal nyrso rhagorol (Awst 2022).</p>	<p>Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol</p>	<p>Yn parhau</p>
		<p>Yn ddiweddar, gwnaethom gwblhau ein rhaglen adnewyddu ar Ward 2 yn ddiweddar ac mae gennym gynlluniau ar waith i adnewyddu Ward 1.</p>	<p>Cyfarwyddwr yr Ysbyty</p>	<p>2023</p>
		<p>Mae gennym offeryn staffio diogel dyddiol ar waith, ac rydym yn cynnal cyfarfod gweithlu dyddiol er mwyn addasu'r lefelau o staff i ddiwallu anghenion ein cleifion a chadarnhau bod gan bob adran lefel ddiogel o staff bob amser o'r dydd.</p>	<p>Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol</p>	<p>Ar waith</p>
		<p>Mae gennym bolisi codi pryderon, Gwarcheidwad Rhyddid i Siarad a nifer o lysgenhadon y gall cydweithwyr godi</p>	<p>Cyfarwyddwr yr Ysbyty</p>	<p>Ar waith</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon Rheoliad	/ Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>pryderon drwyddynt. Mae hyn yn cynnwys Llysgennad Ymgynghorol. Mae unrhyw bryderon a godir yn cael eu rheoli drwy broses ffurfiol a rhoddir adborth i'r unigolyn os yw'n hysbys.</p>		
		<p>Rydym wedi cyflwyno menter newydd o'r enw 'Te gyda'r UDRh', a gynhelir yn fisol, i gasglu adborth mewn lleoliad anffurfiol a'i gwneud yn bosibl i staff awgrymu syniadau ar gyfer gwella.</p>	Y Tîm Uwch-reolwyr	Ar waith
		<p>Mae'r Tîm Uwch-reolwyr wedi cyflwyno menter 'cerdded yn eu hesgidiau' lle maent yn treulio shifft yn gweithio mewn gwahanol dimau i ddeall rolau, y tîm ac unrhyw bryderon sydd angen sylw yn well.</p>	Y Tîm Uwch-reolwyr	Ar waith
		<p>Rydym wedi cyflwyno mewnflwch e-bost o'r enw "Gofyn i Fiona" i gasglu awgrymiadau/adborth, ynghyd â blwch post ffisegol yn yr ystafell fwyta fel y staff godi pryderon / awgrymu syniadau</p>	Cyfarwyddwr yr Ysbyty	Ar waith
		<p>Bydd arolwg cydweithwyr ar draws cwmni Spire yn cael ei gynnal ym mis Hydref 2022 a</p>	Y Tîm Uwch-reolwyr a'r	Hydref 2022

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon Rheoliad	/ Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		fydd yn rhoi adborth y gallwn ei ddefnyddio fel sylfaen er mwyn datblygu cynlluniau gweithredu i wella ymgysylltiad cydweithwyr. Roedd canlyniadau arolwg 2021 yn gadarnhaol iawn ac yn uwch na chyfartaledd grŵp Spire.	penaethiaid adran	
		Rydym wedi penodi Cynllunydd Capasiti newydd i gefnogi gwelliant o ran llif y cleifion rhwng theatrau a'r ward.	Y Rheolwr Archebu Apwyntiadau i Gleifion Mewnol	Dyddiad cychwyn - mis Hydref 2022
		Mae gan Spire brosiect cenedlaethol ar y gweill i gyflwyno fframwaith gwobrwyo newydd a fydd yn rhoi mwy o amlygrwydd i raddfeydd ar gyfer cyflogau a chyfleoedd dilyniant gyrfa ar draws y sefydliad.	Tîm Adnoddau Dynol Grŵp Spire	Ebrill 2023

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): **Fiona Conway**

Swydd:

Cyfarwyddwr yr Ysbyty

Dyddiad:

26 Medi 2022